

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd	Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 10 Mawrth 2020	Ross Davies – Dipwrwy Glerc 0300 200 6565
Amser: 09.15	SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant (Tudalennau 1 – 47)

2 Deisebau newydd

2.1 P-05-940 Gostwng nifer y llawdriniaethau a gaiff eu canslo
(Tudalennau 48 – 54)

2.2 P-05-942 Yr Awr Euraidd wrth Ddiodef Strôc – Amseroedd Ymateb
Ambiwlansau i'w hailgategoreiddio o Statws Oren yn ôl i Statws Coch
(Tudalennau 55 – 64)

2.3 P-05-943 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i
sicrhau gwelliannau i'r A487 rhwng Gellilydan a Maentwrog
(Tudalennau 65 – 70)

2.4 P-05-944 Gwrthdroi'r toriadau i wasanaethau trenau cymudwyr yng
Ngogledd-ddwyrain Cymru
(Tudalennau 71 – 80)

2.5 P-05-945 Yr Argyfwng Hinsawdd a Choedwig Genedlaethol i Gymru
(Tudalennau 81 – 102)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Economi a Thrafnidiaeth

3.1 P-04-667 Cylchfan ar gyfer Cyffordd yr A477A4075
(Tudalennau 103 – 107)



3.2 P-05-907 Newid cyflymder pentre Cemaes i 30mya

(Tudalennau 108 – 110)

Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

3.3 P-05-750 Ar gyfer eitemau untro: cyflwyno System Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a sicrhau y gellir compostio cynwysyddion bwyd cyflym a'r offer sy'n gysylltiedig â hwy

(Tudalennau 111 – 118)

Tai a Llywodraeth Leol

3.4 P-05-864 Gwahardd y defnydd o Bensaernïaeth Elyniaethus

(Tudalennau 119 – 121)

3.5 P-05-927 Cyfleusterau toiled Changing Places

(Tudalennau 122 – 126)

3.6 P-05-871 Trefnu bod cyfleusterau newid cewynnau ar gael mewn toiledau i ddynion a thoiledau i fenywod

(Tudalennau 127 – 128)

3.7 P-05-890 Trethu Ail Gartrefi

(Tudalen 129)

Cydraddoldeb

3.8 P-05-806 Rydym yn galw am roi rhif Tystysgrif Mynediad i bob safle busnes yng Nghymru, yn debyg i'r Dystysgrif Hylendid Bwyd

(Tudalennau 130 – 138)

3.9 P-05-863 Galwn ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cynhyrchion hylendid am ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel

(Tudalennau 139 – 141)

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- 3.10 P-05-771 Ailystyried y penderfyniad i roi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru a'r angen i gefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol
(Tudalennau 142 – 148)
- 3.11 P-05-857 Dylid creu Tasglu Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Plant
(Tudalennau 149 – 150)
- 3.12 P-05-914 Mynediad Cyfartal i Ofal Iechyd ar gyfer yr Anabl
(Tudalennau 151 – 155)
- 3.13 P-05-926 Dylid Darparu Adran Blinder Cronig yng Nghymru
(Tudalennau 156 – 160)

Addysg

- 3.14 P-05-877 Cynllun gwisgoedd ysgol ail-law i blant
(Tudalen 161)
- 3.15 P-05-884 Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018 i gynnwys sefydliadau'r DU sydd â gweithrediadau dramor
(Tudalennau 162 – 167)
- 3.16 P-05-909 Hyrwyddo'r defnydd o iaith arwyddion Makaton ym mhob ysgol yng Nghymru
(Tudalennau 168 – 172)
- 3.17 P-05-932 Addysg ar alergeddau bwyd mewn ysgolion a hyfforddiant EPI-PEN gorfodol
(Tudalennau 173 – 184)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Item 5

5 Trafodaeth ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar deledu cylch cyfyng mewn lladd-dai

- 5.1 P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai

5.2 P-05-916 Cyllid digonol i ddiogelu lles anifeiliaid fferm yn lladd-dai Cymru
(Tudalennau 185 - 187)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 2.1

P-05-940 Gostwng nifer y llawdriniaethau a gaiff eu canslo

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Claire-Louise Walker, ar ôl casglu cyfanswm o 100 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Roedd erthygl a gyhoeddwyd ar 31 Gorffennaf 2018 yn nodi bod 178,000 o llawdriniaethau yng Nghymru wedi'u canslo yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf (2016-2018), 70,000 oherwydd rhesymau anghlinigol. Cafodd 90,000 eu canslo yn 2017/18.

Yn 2012 bu farw fy mab. Cafodd ei roi ar y rhestr aros am driniaeth tonsilectomi brys ym mis Medi 2011. Canslwyd y llawdriniaeth gyntaf oherwydd nad oedd gwely HDU ar gael, a gwnaethom ni ganslo'r ail a'r trydydd gan nad oedd Dylan yn ddigon da. Cafodd y pedwerydd llawdriniaeth, sef yr olaf, ei ganslo oherwydd nad oedd gwely HDU ar gael, ac roedd y driniaeth hon i fod i ddigwydd y diwrnod y bu farw.

Daeth ymchwiliad i'r casgliad pe bai wedi cael y llawdriniaeth y byddai wedi gwella'n llwyr.

Rydym bellach yn prysur agosáu at bron i ddegawd ers ei farw, a rhoddodd bwrdd iechyd Caerdydd a'r Fro sicrwydd imi fod newidiadau wedi'u rhoi ar waith. Mae wedi dod yn amlwg o ystyried y ffigurau eithriadol o uchel hyn nad oes unrhyw beth wedi newid.

Galwaf ar Vaughan Gething, a Chynulliad Cymru i roi newidiadau ar waith i sicrhau bod nifer y llawdriniaethau a gaiff eu canslo yn cael ei lleihau'n ddramatig. Yn bersonol, rwy'n credu bod y ffigurau hyn yn ffiائد.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Cwm Cynon
- Canol De Cymru

P-05-940 Gostwng nifer y llawdriniaethau a gaiff eu canslo

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Mawrth 2020
Petitions Committee | 10 March 2020

Cyfeirnod: RS20/11539

Cyflwyniad

Rhif y ddeiseb: [P-05-940](#)

Teitl y ddeiseb: Gostwng nifer y llawdriniaethau a gaiff eu canslo

Geiriad y ddeiseb: Roedd erthygl a gyhoeddwyd ar 31 Gorffennaf 2018 yn nodi bod 178,000 o lawdriniaethau yng Nghymru wedi'u canslo yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf (2016-2018), 70,000 oherwydd rhesymau anghlinigol. Cafodd 90,000 eu canslo yn 2017/18.

Yn 2012 bu farw fy mab. Cafodd ei roi ar y rhestr aros am driniaeth tonsilectomi brys ym mis Medi 2011. Canslwyd y llawdriniaeth gyntaf oherwydd nad oedd gwely HDU ar gael, a gwnaethom ni ganslo'r ail a'r trydydd gan nad oedd Dylan yn ddigon da. Cafodd y pedwerydd llawdriniaeth, sef yr olaf, ei ganslo oherwydd nad oedd gwely HDU ar gael, ac roedd y driniaeth hon i fod i ddigwydd y diwrnod y bu farw.

Daeth ymchwiliad i'r casgliad pe bai wedi cael y llawdriniaeth y byddai wedi gwella'n llwyr. Rydym bellach yn prysur agosáu at bron i ddegawd ers ei



farw, a rhoddodd bwrdd iechyd Caerdydd a'r Fro sicrwydd imi fod newidiadau wedi'u rhoi ar waith. Mae wedi dod yn amlwg o ystyried y ffigurau eithriadol o uchel hyn nad oes unrhyw beth wedi newid.

Galwaf ar Vaughan Gething, a Chynulliad Cymru i roi newidiadau ar waith i sicrhau bod nifer y llawdriniaethau a gaiff eu canslo yn cael ei lleihau'n ddramatig. Yn bersonol, rwy'n credu bod y ffigurau hyn yn ffaidd.

Y cefndir

Daw'r wybodaeth am lawdriniaethau wedi'u canslo a ddyfynnwyd gan y deisebydd o erthygl newyddion a gyhoeddwyd ar [WalesOnline](#) ym mis Medi 2019. Mae'r erthygl honno yn ei thro wedi'i seilio ar ffigurau gan fyrddau iechyd lleol (BILL) yng Nghymru a ddaeth i law drwy gais Rhyddid Gwybodaeth gan y Blaid Geidwadol yng Nghymru.

Gwnaeth BMA Cymru [ymateb i'r ffigurau](#) ar y pryd, gan honni bod tanariannu, niferoedd annigonol o staff a gwelyau ysbyty, yn ogystal â bylchau mewn rotas staff wedi cyfrannu at nifer y llawdriniaethau a oedd wedi'u canslo, gan alw am y datrysiad a ganlyn (Saesneg yn unig): 'a funding solution that provides appropriate numbers of beds, invests in more staff and takes into account the rising demands on the NHS in order to provide patients with the level of care they expect and deserve'.

Ni chaiff gwybodaeth am nifer y llawdriniaethau sydd wedi'u canslo (y cyfeirir atynt fel Triniaethau Derbyniedig wedi'u Gohirio) yng Nghymru ei hadrodd na'i chyhoeddi fel mater o drefn, naill ai ar lefel bwrdd iechyd lleol neu ar lefel Gymru gyfan. Fodd bynnag, caiff y ffigurau hyn eu casglu bob mis gan fyrddau iechyd lleol a'u cyflwyno i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae'r ffigurau ar gyfer byrddau iechyd lleol unigol hefyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau perfformiad sy'n cael eu trafod yng nghyfarfodydd bwrdd y byrddau iechyd lleol, er nad yw'r cyfarfodydd hyn o reidrwydd yn digwydd yn fisol.

Mae Tabl 1 isod yn dangos cyfanswm nifer y Triniaethau Derbyniedig wedi'u Gohirio a'r rhesymau dros ohirio:

Tabl 1: Cyfanswm y Triniaethau Derbyniedig wedi'u Gohirio, GIG Cymru

	Rheswm dros ohirio	2015/16	2017/18	2018/19	2019/20 (Gweler y nodyn)

Cymru gyfan	Clinigol	9,450	9,361	10,179	7,445
	Anghlinigol	33,982	38,278	37,120	31,295
	Claf	41,067	42,525	43,363	31,677
	Cyfanswm	84,499	90,164	90,662	70,417

Ffynhonnell: Data gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Nodyn: Mae'r data ar gyfer 2019/20 yn cynnwys y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019

Nodir bod triniaeth wedi'i gohirio os na fydd yn digwydd ar y dyddiad a bennwyd. Gellir gohirio triniaeth o'r dyddiad y cafodd y claf yr apwyntiad cychwynnol (a allai fod dair wythnos neu fwy cyn i'r driniaeth ddigwydd) hyd y diwrnod y disgwyllir i'r driniaeth ddigwydd.

Mae categorïau'r rhesymau dros ohirio triniaethau fel a ganlyn:

- **Clinigol:** mae'r rhain yn cwmpasu'r triniaethau hynny a ohiriwyd gan y bwrdd iechyd am resymau fel ysbyty sy'n nodi bod y claf yn sâl, claf sy'n anaddas ar gyfer llawdriniaeth ddydd, neu glaf nad yw'n dilyn y canllawiau cyn cael llawdriniaeth;
- **Anghlinigol:** mae'r rhain yn cynnwys triniaethau a ohiriwyd gan y bwrdd iechyd am resymau fel diffyg gwely, offer neu staff, neu oherwydd bod triniaethau sy'n uwch ar y rhestr yn rhedeg yn hwyr;
- **Claf:** mae'r rhain yn cynnwys sefyllfaoedd lle nad yw'r claf yn dod, lle nad yw'r claf ar gael neu'n sâl, neu glaf sy'n dweud nad yw'n dymuno cael triniaeth mwyach.

Nid yw pob triniaeth a ohiriwyd yn arwain at gollu slot, gan fod cleifion ar restrau rhybudd byr fel arfer yn gallu dod i mewn i lenwi'r slot penodol hwnnw. Hefyd, pan fydd claf yn gohirio triniaeth oherwydd nid yw ar gael, gall hyn fod hyd at dair wythnos cyn i'r driniaeth ddigwydd. Bydd y slot hwnnw wedyn yn cael ei gynnig i'r claf nesaf ar y rhestr sydd ar gael ar y dyddiad penodol hwnnw.

Mae Tabl 2 yn dangos nifer y derbyniadau dewisol i'r ysbyty (nad ydynt yn achosion brys) ym mhob un o'r blynyddoedd a ganlyn:

Tabl 2: Cyfanswm y derbyniadau dewisol, GIG Cymru

	2015/16	2017/18	2018/19	2019/20 (Gweler y nodyn)
Cyfanswm	334,340	330,170	342,002	187,280

Ffynhonnell: Data gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Nodyn: Mae'r data ar gyfer 2019/20 yn cynnwys y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb

Yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb, mae'r Gweinidog yn cydymdeimlo â'r ffaith bod y deisebydd wedi colli ei mab ac yn cydnabod y cyfnod anodd y mae hi a'i theulu wedi'i wynebu.

Mae'r ymateb hefyd yn cydnabod y gofid y gall canslo triniaeth a drefnwyd ei achosi i glaf, gan wneud y pwyntiau a ganlyn:

- Dylai unrhyw glaf y mae ei lawdriniaeth wedi'i gohirio gan yr ysbyty ar fwy nag un achlysur am resymau anghlinigol gyda llai nag wyth diwrnod o rybudd gael ei lawdriniaeth o fewn 14 diwrnod neu cyn gynted ag y bo modd;
- Mae gan fyrddau iechyd lleol yng Nghymru darged i ostwng nifer y gohiriadau ar fyr rybudd 5 y cant o flwyddyn i flwyddyn;
- Pan fydd ysbytai yn gohirio llawdriniaethau, dylai hyn bob amser fod yn ddewis olaf a dylai ysbytai flaenoriaethu diogelwch y claf;
- Mae bron i hanner yr holl ohiriadau a gofnodwyd yng Nghymru yn digwydd am resymau sy'n gysylltiedig â'r cleifion, a ategir gan y ffigurau yn Nhabl 1.

Mae'r ymateb hefyd yn nodi y bydd angen i fyrddau iechyd lleol daro cydbwysedd rhwng anghenion brys yn ystod cyfnodau o bwysau ar wasanaethau iechyd tra'n cynnal ffocws ar ofal arferol nad yw'n cynnwys achosion brys. Felly, bydd staff clinigol yn cynnig triniaeth ar sail anghenion clinigol pob claf, gan asesu'r difrifoldeb a'r brys angenrheidiol.



Ein cyf/Our ref VG/00061/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

14 Chwefror 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Ionawr ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â Deiseb P-05-940 Gostwng nifer y llawdriniaethau a gaiff eu canslo.

Yn gyntaf, a fyddech cystal â mynegi fy nghydymdeimlad wrth Ms Walker ar golli ei mab, rwy'n gwybod bod yn rhaid i hwn fod yn amser anodd iawn iddi hi a'i theulu.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pa mor bryderus y mae cleifion yn gallu teimlo os bydd llawdriniaeth sydd wedi'i chynllunio yn cael ei gohirio. Oherwydd hynny, mae ymrwymiad y dylai unrhyw glaf gael ei lawdriniaeth o fewn 14 o ddiwrnodau, neu ar yr adeg gynharaf pan fo'n gyfleus iddo, os bydd ysbyty wedi gohirio ei lawdriniaeth ar fwy nag un achlysur am resymau nad ydynt yn glinigol, a hynny gyda rhybudd o lai nag wyth niwrnod. Cafodd targed ei osod ar gyfer Byrddau Iechyd yng Nghymru sy'n gofyn iddynt leihau nifer yr achlysuron gohirio ar rybudd byr 5% flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Pan fo gwasanaethau dan bwysau, mae'n bwysig bod Byrddau Iechyd yn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion galwadau a chleifion brys, a'r angen i barhau i ganolbwyntio ar wasanaethau arferol a rheolaidd, a byddant yn asesu cleifion yn seiliedig ar frys clinigol, sef asesiadau y mae'r ymgynghorydd perthnasol yn gyfrifol amdanynt. Pan fydd ysbyty yn gohirio llawdriniaeth, ni fydd hynny'n cael ei wneud ond fel yr opsiwn olaf ac i gynnal diogelwch y claf.

Er i'r adroddiad dan sylw ganolbwyntio ar ohirio triniaethau mewn ysbytai, mae bron i hanner yr achlysuron gohirio a gofnodir yng Nghymru yn digwydd oherwydd rhesymau o du'r claf. Felly, mae'n bwysig bod cleifion yn rhoi gwybod i sefydliadau os na allant fynychu apwyntiad, er mwyn i'r ysbyty allu cynnig yr apwyntiad i glaf arall.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, reading "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AC/AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

P-05-942 Yr Awr Euraidd wrth Ddiodef Strôc – Amseroedd Ymateb Ambiwlansau i'w hailgategoreiddio o Statws Oren yn ôl i Statws Coch
Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Ralph Rees, ar ôl casglu cyfanswm o 117 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae polisi presennol Cynulliad Cymru wedi categoreiddio Amseroedd Ymateb Ambiwlansau ar gyfer unigolyn sydd wedi cael strôc yn y categori "oren", ac mae hyn yn golygu nad oes DIM targed amser ymateb i'w gyrraedd neu fodloni.

Mae'r ddeiseb hon yn gofyn i'r targed amser ymateb ar gyfer person yr amheuir ei fod wedi cael strôc gael ei ailgategoreiddio yn ôl i'r statws "coch", a thrwy hynny sicrhau bod unrhyw berson sy'n cael strôc yn cael cymorth ambiwlans cyn gynted â phosibl.

Mae'n ffaith hysbys mai'r "awr euraidd" yw'r 60 munud mwyaf hanfodol i gael cymorth meddygol angenrheidiol i unrhywun sydd wedi cael strôc. Ni ddylai neb yng Nghymru fod â pherygl y caiff yr "awr euraidd" hon ei hesgeuluso drwy orfod aros am amser ymateb categori "oren" cyn cael cymorth ambiwlans.

Sicrhewch bod unigolion sy'n cael strôc yn derbyn yr amseroedd ymateb y maent y neu haeddu ac y maent eu hangen – sefydlwch darged amser ymateb "coch" heddiw.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Preseli Sir Benfro
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

P-05-942 Amseroedd ymateb ambiwylansiau i gleifion strôc

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Mawrth 2020
Petitions Committee | 10 March 2020

Cyfeirnod: RS20/11773

Cyflwyniad

Rhif y ddeiseb: [P-05-942](#)

Teitl y ddeiseb: Yr Awr Euraidd wrth Ddioddef Strôc – Amseroedd Ymateb Ambiwylansiau i'w hailgategoreiddio o Statws Oren yn ôl i Statws Coch.

Geiriad y ddeiseb: Mae polisi presennol Cynulliad Cymru wedi categoreiddio Amseroedd Ymateb Ambiwylansiau ar gyfer unigolyn sydd wedi cael strôc yn y categori "oren", ac mae hyn yn golygu nad oes DIM targed amser ymateb i'w gyrraedd neu fodloni.

Mae'r ddeiseb hon yn gofyn i'r targed amser ymateb ar gyfer person yr amheuir ei fod wedi cael strôc gael ei ailgategoreiddio yn ôl i'r statws "coch", a thrwy hynny sicrhau bod unrhyw berson sy'n cael strôc yn cael cymorth ambiwlans cyn gynted â phosibl.

Mae'n ffaith hysbys mai'r "awr euraidd" yw'r 60 munud mwyaf hanfodol i gael cymorth meddygol angenrheidiol i unrhyw un sydd wedi cael strôc. Ni ddylai neb yng Nghymru fod â pherygl y caiff yr "awr euraidd" hon ei hesgeuluso drwy orfod aros am amser ymateb categori "oren" cyn cael cymorth ambiwlans.



Sicrhewch bod unigolion sy'n cael strôc yn derbyn yr amseroedd ymateb y maent y neu haeddu ac y maent eu hangen – sefydlwch darged amser ymateb "coch" heddiw.

Cefndir

Y Model Ymateb Clinigol

Ym mis Hydref 2015, symudodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru at ffordd newydd o ddarparu a mesur sut yr ymatebir i alwadau brys am ambiwlans. Mae'r model ymateb clinigol yn rhannu galwadau 999 yn dri math:

Tabl 1: Model Ymateb Clinigol

Math o alwad	Diffiniad	Enghraifft
COCH	Galwadau bygythiad uniongyrchol i fywyd . Bydd y galwadau hyn yn destun dangosyddion clinigol yn ogystal â safon ar sail amser sy'n gofyn am bresenoldeb o fewn 8 munud mewn o leiaf 65% o'r galwadau hyn.	Ataliad y galon/anadlu/tagu
OREN	Difrifol, ond nid oes bygythiad uniongyrchol i fywyd . Bydd y galwadau hyn yn cynnwys y mwyafrif o achosion meddygol a thrawma. Bydd galwadau oren yn cael ymateb brys. Crëir proffil ymateb i wneud yn siŵr bod yr adnodd clinigol mwyaf addas yn cael ei anfon i bob galwad oren. Defnyddir profiad cleifion a data dangosyddion clinigol i werthuso effeithiolrwydd yr ymateb ambiwlans.	Poenau cardiaidd y frest/strôc/torri esgyrn
GWYRDD	Ddim yn ddifrifol nac yn peryglu bywyd . Mae galwadau gwyrdd yn ddelfrydol i'w rheoli trwy wasanaeth brysbennu eilaidd dros y ffôn. Yn aml mae gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn gofyn am drosglwyddiad brys o ofal aciwt isel i gyfleuster aciwt uwch. Mae'r trosglwyddiadau hyn yn cael eu codio fel rhai gwyrdd ac yn cael eu cyflawni o fewn amserlen y cytunwyd arni gyda'r gweithiwr proffesiynol sy'n gwneud y cais.	Llewygu – y claf wedi dod ato a mân-anafiadau/pigyn yn y glust

Ffynhonnell: Cyflwyniad WAST i sesiwn graffu gyffredinol y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (HSCS), 2020

Categoreiddio strôc

Gall ymateb y gwasanaeth ambiwlans i strôc fod yn wahanol yn ôl math a difrifoldeb y strôc, yn ogystal ag amgylchiadau'r cleifion unigol. Mae'r Gymdeithas Strôc yn disgrifio'r tri math gwahanol o strôc:

- Mae strôc isgemig yn digwydd pan fydd clot gwaed yn torri'r cyflenwad gwaed i'r ymennydd. Mae hyn yn cyfrif am 85% o'r holl achosion;
- Mae strôc waedlifol yn digwydd pan fydd gwaedu yn yr ymennydd neu o'i gwmpas;
- Mae pwl o isgemia dros dro yn cael ei alw hefyd yn fân strôc. Mae'r un peth â strôc, ond dim ond am gyfnod byr y mae'r symptomau'n para.

Yr 'Awr Euraidd'

Mae'r 'awr euraidd' yn gysyniad cyffredinol ym maes meddygaeth frys sy'n nodi bod gan glaf â chyflyrau aciwt penodol, gan gynnwys strôc, 60 munud i dderbyn gofal hollgynhwysol, ond gall morbidrwydd a marwolaethau gynyddu'n sylweddol o ymyrryd yn hwyrach. Mae yna ystod sylweddol o ymchwil, tystiolaeth ac arweiniad ar y modd o ddiagnosio, trin a rheoli'r gwahanol fathau o strôc. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o safbwyntiau ar y math o driniaeth, a'i amseriad, ar gyfer gwahanol fathau o strôc; mae llawer yn dangos gwerth yr 'awr euraidd', ond mae ambell safbwynt wahanol o ran a yw'r amserlen hon yn briodol ar gyfer pob math o strôc ac ymatebion gwasanaethau.

Yn ôl Safonau Ansawdd ar gyfer Strôc mewn Oedolion NICE, caiff ymennydd cleifion sydd wedi dioddef strôc aciwt ei ddelweddu'r cyn pen 1 awr ar ôl cyrraedd yr ysbyty, os ydynt yn bodloni unrhyw un o'r arwyddion ar gyfer delweddu ar unwaith. Mae ymchwil ym maes Nyrsio Gofal Critigol yn argymhell rhoi protocol strôc isgemig aciwt ar waith, yn ogystal â thîm strôc aciwt i gwblhau'r broses o ddelweddu'r ymennydd a chynnal profion eraill o fewn yr awr euraidd. Yn ôl y Gymdeithas Strôc, dylai pawb sydd, i bob golwg, wedi cael strôc gael sgan ymennydd cyn pen awr, os yn bosibl, oherwydd gall sgan helpu meddygon i benderfynu ar y driniaeth gywir.

Mae canllawiau presennol NICE ynghylch diagnosio a rheoli strôc a phwl o isgemia dros dro yn argymhell derbyn pawb sydd, i bob golwg, wedi cael strôc yn uniongyrchol i uned strôc aciwt arbenigol yn dilyn asesiad cychwynnol. Yn yr un modd, mae'r Canllaw Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Strôc (2016, t.43) a gyhoeddwyd gan Goleg Brenhinol y Meddygon yn nodi y gall cleifion sy'n dioddef

strôc waedliful ddirywio'n gyflym, ac y dylid eu derbyn yn uniongyrchol i uned strôc hyperacíwt ar gyfer asesu a monitro arbenigol brys.

Ar yr un pryd, yn ôl NICE a'r Gymdeithas Strôc, mae angen rhoi thrombolysis cyn pen pedair awr a hanner ar ôl dechrau symptomau strôc i'r rhan fwyaf o bobl sy'n dioddef strôc isgemig.

Yn eu tystiolaeth lafar i sesiwn graffu gyffredinol y Pwyllgor Iechyd Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ym mis Ionawr 2020, cadarnhaodd WAST yr angen am ymatebion gwahanol i strôc waedliful – a allai fod yn sylweddol fwy difrifol yn glinigol – a strôc isgemig:

Severe haemorrhagic strokes,...will present, very often, differently, and under those circumstances, they would often tip into the red category, and, of course, then, you would have to get them to a neurosurgical unit and ensure that they are scanned prior to treatment. (para.38)

Yn ôl WAST hefyd (para.44), er nad oes safon amser ymateb ar gyfer galwadau oren, yr amser ymateb delfrydol i glaf sy'n syrthio o fewn yr hyn y maent yn ei alw'n categori Oren 1 yw tua 20 munud, a thua 30 i 40 munud o fewn eu categori Oren 2.

Yr Adolygiad o'r Categori Oren

Ym mis Tachwedd 2018, mewn ymateb i bryderon ynghylch perfformiad Oren, cyhoeddodd WAST Adolygiad o'r galwadau i Wasanaeth Ambiwylans Cymru a gategoreiddiwyd fel Oren.

Mae WAST – fel llawer o wasanaethau brys eraill yn y DU a thramor – yn defnyddio set o brotocolau sy'n cynnwys cwestiynau a chyfarwyddiadau allweddol i'r sawl sy'n delio â galwadau, er mwyn darparu ffordd safonol o bennu'r math o alwad, a pha mor frys ydyw. Mae WAST yn defnyddio'r System Dosbarthu Blaenoriaeth Feddygol, sydd â thua 1,900 o godau y gellir eu cynhyrchu mewn ymateb i atebion y galwr.

O'r galwadau hyn, mae 62% yn y categori Oren. Mae codau Oren 1 yn cyfrif am oddeutu 14% o'r rhain ac yn cynnwys pethau fel strôc ddiweddar (o fewn 4 awr) a phoen yn y frest. Mae codau Oren 2 yn cyfrif am oddeutu 48% o'r codau ac yn cynnwys pethau fel cwympiadau a strôc llai diweddar (dros 4 awr).

Yn ôl yr Adolygiad o Alwadau Oren (t.26), nid yw hynny'n golygu y bydd pawb sy'n cysylltu â gwasanaethau ambiwlans sy'n credu eu bod nhw, neu rywun gyda nhw,

yn dioddef strôc yn cael eu blaenoriaethu yn y protocol strôc neu fel Oren; gall symptomau eraill fel anymwybodolrwydd olygu bod yr alwad yn cael ei chategoreiddio fel cyflwr arall gyda chod blaenoriaeth uwch, fel Coch. Mae'r system yn blaenoriaethu galwad yn ôl brys gan ei chymharu ag eraill, ac yna penderfynir pa fath o ymateb neu gerbyd sydd ei angen.

Nododd yr Adolygiad nifer o ganfyddiadau allweddol, gan gynnwys y canlynol:

- Mae blaenoriaethu galwadau yn gymhleth, ond mae yna ystod o ymatebion gwahanol, gan ddibynnu ar gyflwr y claf;
- Teimlai'r cyhoedd ei bod yn bwysig cael yr ymateb gorau ar gyfer eu cyflwr, hyd yn oed os nad hwnnw oedd y cyflymaf;
- Mae'r model ymateb clinigol yn ffordd ddilys a diogel o ddarparu gwasanaethau ambiwlans, ac mae'r cyhoedd yn cefnogi egwyddorion y model;
- Nid yw'n ymddangos bod yr amser aros am ymateb ambiwlans yn y categori Oren yn cyfateb â chanlyniadau gwaeth.

At hynny, argymhellodd yr Adolygiad raglen ymgysylltu i sicrhau eglurder o ran rôl gwasanaethau ambiwlans brys, a'r modd y caiff galwadau eu blaenoriaethu a'u chategoreiddio. Ym mis Ionawr 2020, gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gyhoeddiad ynghylch sefydlu Tasglu Argaeledd Ambiwylansys i arwain gwaith mewn nifer o feysydd, gan gynnwys adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr Adolygiad Categori Oren. Mae WAST wedi sôn am (t.10) pryderon parhaus ynghylch perfformiad Oren, gydag amseroedd ymateb yn uwch nag oeddynt yn 2018.

Tystiolaeth o fannau eraill yn y DU

Yn dilyn adolygiad o safonau gwasanaeth ambiwlansys gan Brifysgol Sheffield, yn 2017, sefydlodd GIG Lloegr set newydd o dargedau brys ambiwlansys ar gyfer Lloegr. Mae'r rhain yn seiliedig ar bedwar categori; salwch neu anafiadau sy'n peryglu bywyd, galwadau mewn argyfwng, galwadau brys a galwadau llai brys. Mae cleifion strôc yn tueddu i gael eu cynnwys yn y categori 'argyfwng', sydd â tharged perfformiad o 18 munud.

Mae Gwasanaeth Ambiwylans yr Alban (Adroddiad Perfformiad Dangosyddion Ansawdd y Bwrdd tt.11-15) yn hysbysu yn erbyn system pum haen, sef Porffor (amser targed o dan 6 munud), Coch (amser targed o dan 7 munud), Oren, Melyn

a Gwyrdd (nid oes gan y tri olaf amser ymateb targed). Y tueddiad yw cynnwys cleifion sydd, i bob golwg, wedi cael strôc, yn y categori Oren.

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb

Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y ffaith mai clinigwyr blaenllaw wnaeth ddyfeisio model ymateb clinigol Cymru, a'i fod yn rhoi mwy o ffocws nid yn unig ar yr amser a gymerir i ymateb, ond hefyd ar ansawdd y gofal y mae pobl yn ei gael a gwneud yn siŵr bod cleifion strôc yn cael eu trosglwyddo i'r lleoliad mwyaf priodol ar gyfer cael triniaeth:

Dyna pam y mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn anelu at ymateb i gleifion sy'n cael strôc gynnar newydd mor gyflym â phosibl drwy anfon cerbyd ambiwlans argyfwng addas o dan amodau gyrru golau glas i'w cludo yn syth i dîm strôc arbenigol i ddechrau'r driniaeth sydd ei hangen arnynt.

Mae'r ymateb hefyd yn pwysleisio y gall yr hyn sy'n gyfrifol am amodau amrywio, ynghyd â pha mor ddifrifol ydynt, a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n cymryd y galwadau categoreiddio'r alwad yn unol â hynny, sy'n golygu efallai na chedwir yn gaeth at y meini prawf o fewn y model ymateb bob amser, oni bai bod amgylchiadau a chyflwr clinigol yn cefnogi hynny.

Er enghraifft, gellir categoreiddio trawiad ar y galon a strôc yn y categori Coch neu Oren gan ddibygnu ar eu difrifoldeb clinigol cymharol.

Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cadarnhau, yn unol ag un o argymhellion yr Adolygiad o Alwadau Oren, fod Rhaglen Gweithredu'r Adolygiad wedi bod yn gweithio gyda'r Gymdeithas Strôc, Cyngorau Iechyd Cymunedol a phartneriaid o fewn GIG Cymru i ddatblygu mesurau newydd sy'n rhoi mwy o gyd-destun o ran amseroedd ymateb ambiwlansys i bobl sy'n cael strôc. Bwriad y gwaith hwn yw cefnogi dyluniad mesurau ar sail amser ar gyfer strôc, y mae'r Gweinidog yn disgwyl eu cyhoeddi yn gynnar yn 2020.



Ein cyf/Our ref VG/00244/20

Janet Finch-Saunders AC
Aelod Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

20 Chwefror 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Ionawr ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn ag ailgategoreiddio galwadau ambiwlans sy'n ymwneud â strôc.

Rwy'n disgwyl i bob claf sy'n defnyddio'r gwasanaeth ambiwlans gael ymateb amserol sy'n gymesur â'u hangen clinigol ac i bob claf yng Nghymru gael y gofal sydd ei angen arnynt o fewn yr amseroedd a nodir yn y canllawiau clinigol safonol ar gyfer cyflyrau penodol.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod y model ymateb clinigol newydd ar gyfer gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru, a gyflwynwyd ym mis Hydref 2015, yn blaenoriaethu galwadau yn ôl angen clinigol cymharol y claf i sicrhau bod y rhai sydd fwyaf angen ymateb di-oed, mewn sefyllfaoedd lle mae eu bywyd yn y fantol, yn cael blaenoriaeth i gael yr ymateb cyflymaf er mwyn rhoi'r siawns orau iddynt o oroesi. Lluniwyd y model gan glinigwyr blaenllaw ac mae'n rhoi mwy o bwyslais nid yn unig ar brydlondeb yr ymateb, ond hefyd ar ansawdd y gofal y mae pobl yn ei gael.

Pan fo pobl yn dioddef strôc, po gyflymaf y maent yn cyrraedd uned strôc arbenigol, y cyflymaf y byddant yn cael y driniaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt. Dyna pam y mae Gwasanaeth Ambiwllans Cymru yn anelu at ymateb i gleifion sy'n cael strôc gynnar newydd mor gyflym â phosibl drwy anfon cerbyd ambiwlans argyfwng addas o dan amodau gyrru golau glas i'w cludo yn syth i dîm strôc arbenigol i ddechrau'r driniaeth sydd ei hangen arnynt. Mae Gwasanaeth Ambiwllans Cymru wedi gosod canllawiau clinigol cadarn y mae rhaid eu dilyn ar gyfer pob claf yr amheuir ei fod wedi cael strôc. Mae hyn yn sicrhau bod cleifion strôc gwirioneddol a phosibl yn cael eu cludo i'r lleoliadau priodol o fewn y canllawiau y cytunwyd arnynt yn glinigol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n bwysig ystyried y gall yr hyn sy'n achosi cyflyrau, a'u difrifoldeb clinigol, amrywio ac y bydd angen i dderbynwyr galwadau asesu cyflwr ac amgylchiadau claf a chategoreiddio'r alwad yn unol â hynny. Gan hynny, ni fydd y meini prawf ar gyfer categoreiddio galwadau bob amser yn cael eu gweithredu'n gaeth onid yw cyflwr clinigol y claf a'i amgylchiadau unigol yn cefnogi hynny. Er enghraifft, gellir categoreiddio trawiad ar y galon a strôc yn y categori Coch neu Oren gan ddibynnu ar eu difrifoldeb clinigol cymharol.

Yn dilyn cyhoeddi'r adolygiad o dan arweiniad clinigol o gategori ymateb Oren Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, ym mis Tachwedd 2018, mae tîm Rhaglen Gweithredu'r Adolygiad o Alwadau Oren (ARIP) wedi bod yn gweithio ar y cyd â Chynghorau Iechyd Cymuned, y Gymdeithas Strôc a'i grwpiau cleifion, a phartneriaid GIG Cymru i ddatblygu mesurau newydd sy'n rhoi mwy o gyd-destun i amseroedd ymateb ambiwlans ar gyfer pobl sy'n cael strôc.

Mae'r Gymdeithas Strôc wedi cytuno i fod yn 'bartner cyhoeddi' a chynorthwyo i gynllunio mesurau sy'n seiliedig ar amser ar gyfer strôc. Rwy'n disgwyl i'r rhain gael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2020.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i chi.

Yn gywir,



Vaughan Gething AC/AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

P-05-943 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i sicrhau gwelliannau i'r A487 rhwng Gellilydan a Maentwrog

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Carron Jones, ar ôl casglu 2,595 o lofnodion ar-lein a 2,855 ar bapur, sef cyfanswm o 5,450 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym ni'n gofyn i Lywodraeth Cymru gymryd camau brys i sicrhau fod gwelliannau pendant yn cael eu gwneud i'r A487 rhwng Gellilydan a Maentwrog yn dilyn y damweiniau trist a thorcalonnus sydd wedi digwydd yno yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr fod newid pendant yn cael ei wneud i'r ffordd rhag i drychinebau o'r fath ddigwydd eto.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyfor Meirionnydd
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Deiseb: Gwelliannau i'r A487 rhwng Gellilydan a Maentwrog

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Mawrth 2020
Petitions Committee | 10 March 2020

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-943

Teitl y ddeiseb: Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i sicrhau gwelliannau i'r A487 rhwng Gellilydan a Maentwrog

Geiriad y ddeiseb:

Rydym ni'n gofyn i Lywodraeth Cymru gymryd camau brys i sicrhau fod gwelliannau pendant yn cael eu gwneud i'r A487 rhwng Gellilydan a Maentwrog yn dilyn y damweiniau trist a thorcalonnus sydd wedi digwydd yno yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr fod newid pendant yn cael ei wneud i'r ffordd rhag i drychinebau o'r fath ddigwydd eto.

Y cefndir

Mae cefnffordd yr A487 yn rhan o'r rhwydwaith o gefnffyrdd sy'n cysylltu Abergwaun yn Sir Benfro â gogledd Cymru. Mae map o rwydwaith cefnffyrdd Cymru [ar gael yma](#). Mae'r ddeiseb hon yn cyfeirio at gymal o'r ffordd rhwng Gellilydan a Maentwrog yng Ngwynedd.

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru, gan gynnwys yr A487. Cyfrifoldeb [Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru](#) yw cynnal a chadw'r A487 i'r gogledd o Aberteifi. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddiogelwch y rhwydwaith cefnffyrdd.

Mae'r [Sefydliad Diogelwch Ffyrdd](#), sef yr elusen sy'n ceisio lleihau nifer yr anafiadau ar ffyrdd y DU, yn bartner yn [Rhaglen Asesu Ffyrdd Ewrop \(EuroRAP\)](#), sy'n gymdeithas nid-er-elw i hybu ffyrdd sy'n fwy diogel. Mae'r Sefydliad Diogelwch Ffyrdd yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar ganlyniadau asesiad EuroRAP o ddiogelwch ffyrdd Prydain. Mae'r rhain yn cynnwys mapiau risg ar gyfer y prif ffyrdd ym Mhrydain a all roi syniad i chi o lefel gymharol y risg ar yr A487.

Mae [adroddiad EuroRAP ar gyfer y DU yn 2019](#) yn cynnwys y map risg ar gyfer Cymru ar dudalen 47. Gellir gweld bod yr A487 wedi'i hasesu ar lefel risg isel/ganolig. Disgrifir y fethodoleg ar dudalen 46 fel a ganlyn:

...The risk is calculated by comparing the frequency of road crashes resulting in death and serious injury on every stretch of road with how much traffic each road is carrying. For example, the risk on a road carrying 10,000 vehicles a day with 20 crashes is ten times the risk on a road that has the same number of crashes but which carries 100,000 vehicles.

Er bod yr A487 yn ei chyfanrwydd wedi'i hasesu ar lefel risg isel/ganolig, fel yr amlinellir yn [yr erthygl hon yn y cyfryngau](#), bu nifer o ddamweiniau angheuol ar y cymal o'r ffordd a nodwyd yn y ddeiseb yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae'r llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru at y Cadeirydd, dyddiedig 12 Chwefror 2020, yn nodi bod y gwaith i wella diogelwch yn y lleoliad hwn wedi dechrau ar 3 Chwefror 2020. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

...signing and safety barrier work ...[a]... new 40mph speed restriction...[and]...speed measuring equipment.

Mae'r llythyr hefyd yn amlinellu y bydd gwaith wynebu ffyrdd yn digwydd a bod Llywodraeth Cymru yn cymryd y camau a ganlyn ar hyn o bryd:

...investigating the nature of the existing surfacing in order to decide on the exact requirements for new surface.

Fel y cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru, daeth [Gorchymyn Cefnffordd yr A487 \(Gellilydan, Gwynedd\) \(Terfyn Cyflymder 40 mya\) 2020](#) i rym ar 13 Chwefror 2020.

Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Er nad yw'r Cynulliad wedi trafod y cymal penodol hwn o'r A487 o'r blaen, mae'r Pwyllgor wedi trafod nifer o ddeisebau sy'n gysylltiedig â chymalau eraill o'r ffordd. Cafodd eich pwyllgor cyfatebol yn y Pedwerydd Cynulliad ddeisebau ar yr A487 hefyd. Mae'r rhain wedi cynnwys deisebau yn ymwneud â gwahanol gymalau o'r ffordd, fel a ganlyn:

- [Cyflwyno terfyn cyflymder gorfodol o 40mya ar ffordd yr A487 ym Mlaen-porth, Ceredigion;](#)
- [Israddio Ffordd yr A487 drwy Penparcau, Trefechan a chanol tref Aberystwyth;](#)
- [Gostwng y terfyn cyflymder ar yr A487 ym Mhenparcau;](#)
- [Cefnffordd yr A487 Trwy Dre Taliesin: Angen Brys am Fesurau Effeithiol i Arafu Traffig; a](#)
- [Gwelliannau i Ddiogelwch y Ffordd ar Hyd Cefnffordd yr A487 Rhwng Aberteifi ac Aberystwyth, i Gynnwys Mannau Pasio.](#)

Yn 2018, [dywedodd](#) Rhun ap Iorwerth AC, aelod blaenorol o'r Pwyllgor Deisebau:

...the A487 is one of our big problems in terms of our trunk road network in Wales. The A470 and the A487 together form the north-west to the south routes and, frankly, the A487 is worse than the A470 in terms of the villages it goes through, and it needs addressing.



Eich cyf/Your ref P-05-943
Ein cyf/Our ref KS/00312/20

Janet Finch-Saunders AC

Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

12 Chwefror 2020

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Ionawr ynghylch Deiseb P-05-943 i gymryd camau brys i sicrhau gwelliannau i'r A487 rhwng Gellilydan a Maentwrog.

Gallaf gadarnhau bod y gwaith yn y lleoliad hwn wedi dechrau yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 3 Chwefror. Mae'r cam hwn yn cynnwys gwaith gosod arwyddion a gosod rhwystrau diogelwch a bydd yn parhau am rhwng 2 a 3 wythnos. Bydd y terfyn cyflymder newydd o 40 milltir yr awr mewn grym cyn gynted ag y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau. Mae cyfarpar mesur cyflymder eisoes wedi'i osod a byddwn yn monitro hyn dros y misoedd nesaf er mwyn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth â'r terfyn newydd.

Byddwn hefyd yn gosod wyneb newydd ar Ffordd yr Oakeley yn ystod y misoedd nesaf. Bydd hyn yn cynnwys gosod wyneb ffrithiant uchel a gwella'r marciau ar y ffordd. Rydym wrthi'n ymchwilio i natur y wyneb presennol er mwyn pennu'r union ofynion ar gyfer y wyneb newydd.

Ken Skates AC/AM

Gweinidog yr Economi, Thrafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

Canolfan Cyswilt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

P-05-943 We call on the Welsh Government to take urgent action to secure improvements to the A487 between Gellilydan and Maentwrog, Correspondence – Petitioner to Committee, 28.02.20

Dear Committee members,

I wanted to start this petition as I lost my best friend\first cousin who felt more like a Sister on this road in July 2019. I feel that something should have been done before this accident occurred as my friend Sioned Wyn lost her Sister, Daughter and Dog a year and a half prior to this accident. I've never experienced pain like I have for the last 7months without Fflur and don't want any more families to experience such loss and pain as we both have. Carron.

This petition has been started as we don't want this road to destroy any more lives. On 11-1-2018 mine and my family's lives we're destroyed forever. We lost my Beautiful Sister Anna Wyn Williams who was only 22, my beautiful daughter Mili Wyn Ginniver, who was only 6 months, and my beautiful dog Celt, who was only 2. I was critical in Stoke hospital and my family almost lost me too. The pain of losing them is the worst pain in the world and I know pain as my body was so badly damaged, but nothing will ever compare to the loss of my loved ones. Exactly a year and 6 months later Fflur, another beautiful young lady, lost her life. This is why me and Carron (Fflur's Cousin) have come together to start this petition. Our lives have been destroyed forever. We don't want any other family to feel this pain. Sioned.

Kind regards

Sioned and Carron

P-05-944 Gwrthdroi'r toriadau i wasanaethau trenau cymudwyr yng Ngogledd-ddwyrain Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Dr Mihela Erjavec, ar ôl casglu cyfanswm o 953 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cymudwyr ar hyd Arfordir Gogledd Cymru wedi cael gostyngiad mewn gwasanaethau trenau yn ystod oriau brig er eu bod yn talu rhai o'r prisiau tocynnau trê'n mwyaf (o fesur y teithiau fesul milltir) yn y DU.

Mae'r toriadau hyn i wasanaethau eisoës wedi arwain at ostyngiad yn nifer y teithwyr sy'n defnyddio gorsafoedd trenau Gogledd-ddwyrain Cymru, gyda mwy a mwy o gymudwyr yn gorfod gyrru, gan ychwanegu at y tagfeydd ar yr A55.

Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) bellach yn bwriadu torri'r unig wasanaeth trê'n oriau brig gyda'r hwyr rhwng Bangor a Bae Colwyn, y Rhyl, Prestatyn a'r Fflint, sef y gwasanaeth 17:16 o Fangor. Bydd hyn yn gorfodi cymudwyr i newid trenau yng Nghyffordd Llandudno, lle y bydd yn rhaid iddynt aros am fwy nag awr am drê'n cyswllt.

Mae canslo'r gwasanaeth trê'n hwn yn mynd yn hollol groes i bolisi Llywodraeth Cymru ar sawl cyfrif:

- 1) Bydd yn arwain at fwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy orfodi pobl oddi ar drafnidiaeth gyhoeddus i'w ceir, ar adeg o "argyfwng hinsawdd".
- 2) Bydd yn gwrthod mynediad i Brifysgol Bangor i'r rhai sy'n byw mewn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Felly, rydym yn galw ar y Cynulliad i orfodi TrC i ailystyried a sicrhau bod y gwasanaethau trenau yng Ngogledd Cymru yn ddigon aml a fforddiadwy i annog cymudwyr i ddod oddi ar y ffyrdd ac ar y trenau.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Clwyd
- Gogledd Cymru

Deiseb: Gwrthdroi'r toriadau i wasanaethau trenau cymudwyr yng Ngogledd-ddwyrain Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Mawrth 2020
Petitions Committee | 10 March 2020

Papur Briffio:

Rhif y Ddeiseb: P-05-944

Teitl y Ddeiseb: Gwrthdroi'r toriadau i wasanaethau trenau cymudwyr yng Ngogledd-ddwyrain Cymru

Geiriad y ddeiseb:

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cymudwyr ar hyd Arfordir Gogledd Cymru wedi cael gostyngiad mewn gwasanaethau trenau yn ystod oriau brig er eu bod yn talu rhai o'r prisiau tocynnau trên mwyaf (o fesur y teithiau fesul milltir) yn y DU.

Mae'r toriadau hyn i wasanaethau eisoes wedi arwain at ostyngiad yn nifer y teithwyr sy'n defnyddio gorsafoedd trenau Gogledd-ddwyrain Cymru, gyda mwy a mwy o gymudwyr yn gorfod gyrru, gan ychwanegu at y tagfeydd ar yr A55.

Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) bellach yn bwriadu torri'r unig wasanaeth trên oriau brig gyda'r hwyr rhwng Bangor a Bae Colwyn, y Rhyl, Prestatyn a'r Fflint, sef y gwasanaeth 17:16 o Fangor. Bydd hyn yn gorfodi cymudwyr i newid trenau yng Nghyffordd Llandudno, lle y bydd yn rhaid iddynt aros am fwy nag awr am drên cyswllt.

Mae canslo'r gwasanaeth trên hwn yn mynd yn hollol groes i bolisi Llywodraeth Cymru ar sawl cyfrif:

- Bydd yn arwain at fwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy orfodi pobl oddi ar drafnidiaeth gyhoeddus i'w ceir, ar adeg o "argyfwng hinsawdd".
- Bydd yn gwrthod mynediad i Brifysgol Bangor i'r rhai sy'n byw mewn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Felly, rydym yn galw ar y Cynulliad i orfodi TrC i ailystyried a sicrhau bod y gwasanaeth trenau yng Ngogledd Cymru yn ddigon aml a fforddiadwy i annog cymudwyr i ddod oddi ar y ffyrdd ac ar y trenau.

Cefndir

Yn ystod haf 2018 dyfarnodd Llywodraeth Cymru gontract 15 mlynedd i gyflwyno masnachfaint rheilffordd Cymru a'r Gororau i KeolisAmey, sy'n masnachu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru. Rheolir y fasnachfaint ar ran Llywodraeth Cymru gan ei chorff darparu trafndiaeth, Trafnidiaeth Cymru (TrC). Dechreuodd Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC weithredu gwasanaethau rheilffordd Cymru a'r Gororau ym mis Hydref 2018.

Mae [amserlenni National Rail ym Mhrydain yn newid](#) ddwywaith y flwyddyn, bob mis Mai a mis Rhagfyr. Daeth y newid diweddaraf i'r amserlen i rym ddydd Sul 15 Rhagfyr 2019. Mae [gwefan Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC yn cynnwys manylion](#) y newidiadau i'r amserlen a wnaed gan y gweithredwr ym mis Rhagfyr 2019. Mae'r rhain yn dangos bod gwasanaethau Caerdydd i Gaerdybi ymhlith y "rhai sy'n cael eu heffeithio". O ran "newid amseroedd trenau", mae'r wefan yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

Pam mae'r gwasanaethau rhwng Caerdydd a Chaerdybi wedi cael eu heffeithio cymaint gan y newid hwn i'r amserlen?

Ynghyd â'r angen i ddelio ag ail-amseru gwasanaethau de Cymru i Lundain, rydyn ni hefyd wedi gorfod addasu amserlen y llwybr hwn. Yn nechrau 2020, bydd y trê'n a'r cerbydau sy'n cael eu tynnu gan y locomotif "Gerald" (heb y cyfleusterau bwyta dosbarth cyntaf) yn rhedeg gwasanaethau ychwanegol ar y llwybr hwn. Mae gan y trê'n hwn ofynion gwahanol a does dim modd iddo aros ym mhob gorsaf ar y llwybr os yw'r plattform yn rhy fyr. Mae hyn wedi arwain at batrymau galw gwahanol i rai gwasanaethau ar y llwybr hwn. Hefyd, mae ein contract yn datgan bod yn rhaid i ni gynnig gwasanaethau cyflymach rhwng gogledd a de Cymru.

Pam mae'n rhaid i mi aros yn hirach am fy ngwasanaeth cysylltu?

Mae cynllunwyr ein hamserlen wedi gwneud eu gorau i gadw cysylltiadau yn y gwasanaeth lle bo hynny'n bosib. Ond, mewn rhai achosion, mae'n bosib na fydd y gwasanaethau'n rhyng-gysylltu'n ddidrafferth yn enwedig gan fod amseroedd trenau gweithredwyr trenau eraill yn newid hefyd.

Cyflwynwyd newidiadau i'r gwasanaethau rhwng Caerdybi a Chaerdydd i baratoi ar gyfer cyflwyno Trenau Marc 4 a Dynnir gan Locomotif pan fyddant yn dechrau gwasanaethu. Cafodd y gwasanaeth 17.16 i'r de o Fangor ei ail-amseru a thynnwyd rhai arosfannau. Roedd y gwasanaeth 17.16 o Fangor yn arfer galw yng Nghyffordd Llandudno, Bae Colwyn, y Rhyl, Prestatyn a'r Fflint cyn Caer. Erbyn hyn, mae wedi'i ddisodli gan wasanaeth 17.18 sy'n galw yng Nghyffordd Llandudno yn unig, ac yna Caer.

Camau gan Lywodraeth Cymru

Mae'r llythyr dyddiedig 13 Chwefror 2020 gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru i'r Cadeirydd yn ymateb i'r ddeiseb hon yn crynhoi safbwynt Llywodraeth Cymru. Dywed y Gweinidog ei fod ef a TrC yn "cydnabod" bod y newid i'r amserlen ym mis Rhagfyr, a gyflwynodd y llwybr cyflym rhwng y gogledd a'r de wedi codi pryderon ymysg teithwyr. Mae'n nodi bod y gwaith o ddatblygu amserlenni yn waith heriol iawn a bod "nifer o ffactorau" i'w hystyried i ganiatáu ar gyfer y llwybr cyflym y mae mawr ei angen.

Aeth y Gweinidog yn ei flaen:

Roedd Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwmo i gyflwyno gwasanaethau cyflymach rhwng Caerdydd a Chaerdydd bob dydd o'r wythnos erbyn mis Rhagfyr 2019. Byddai trenau modern a mwy cyfforddus yn cael eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau hyn. Mae hyn wedi arwain at newid amseroedd trenau eraill a newidiadau i batrymau galw gwasanaethau ar hyd rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Canlyniad hyn yw bod yn rhaid i rai teithwyr bellach ddefnyddio gwasanaethau eraill ar gyfer cyrraedd rhai lleoliadau.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid a gwranddo ar deithwyr, gan geisio defnyddio'r adborth gwerthfawr y maent yn ei dderbyn er mwyn parhau i wella a ffurfio eu cynlluniau ar gyfer y rheilffyrdd. Bydd ein harnserlenni a'n gwasanaethau cysylltu yn cael eu hystyried yn rhan o'r gwaith yma.

Camau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Er nad yw'n cyfeirio at y gwasanaethau penodol o Fangor a nodwyd gan y deisebydd, yn y [Cyfarfod Llawn ym mis Ionawr 2020](#) gofynnodd Rhun ap Iorwerth AC i'r Gweinidog wneud datganiad "am effaith y newid diweddar yn yr amserlenni tren ar orsafoedd llai". Mae ymateb y Gweinidog, a'r drafodaeth ddilynol, wedi'u cynnwys isod:

Ken Skates AC: Newidiadau amserlen mis Rhagfyr oedd y newid mwyaf i wasanaethau ers dros dri degawd. Mae hyn wedi bod o fudd i rai defnyddwyr rheilffyrdd, tra bo gwasanaethau eraill, yn anffodus, wedi cael eu heffeithio. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ceisio cyflwyno mesurau amgen lle effeithiwyd ar wasanaethau, ac maent yn adolygu posibilidau pellach ar gyfer diwygio'r amserlen fel rhan o newidiadau amserlen mis Mai.

